

\$5
Gorffennaf
2011

Llais Yr Andes

Papur Cymraeg Trevelin ac Esquel

Dyddiadau i'r Dyddiadur

03/052011 a
06/05/2011 - Creu
printiau gyda Rincon
del Arte (plant 9-11
oed)

13/05/2011 - Noson
Gyrri Trevelin



20/05/2011 - Noson
Sieiniaidd Clwb
Gwawr.

忠

21/05/2011 -
Eisteddfod Ddwl
Esquel.



Mae yno lawer o bethau diddorol yn y rhifyn diweddaraf o Lais Yr Andes. Yn y rhifyn hwn mae cyfle i weld ambell beth sydd wedi digwydd yng Nghwm Hyfryd, dod i adnabod ambell berson yn well, rhywbeth i'r plant, rysáit, tips i'r tŷ, croesair a sudoku i'r oedolion a chystadleuaeth.



Eisteddfod Trevelin 2011

Fel pob blwyddyn cafwyd Eisteddfod llawn hwyl, ac roedd cystadlu o safon uchel, yn dangos i'r Ariannin ac i weddill y byd bod yn dalent arbennig yma yn yr Andes. Dyma luniau o'r diwrnod. Rhai o gôr Seion yn canu fel anifeiliaid



Y bardd buddugol gyda Bennet



Alwen Green yn adrodd



Côr

Seion yn disgwyl am y bwyd



Grŵp dawnsio gwerin Trevelin



Merlin, Maru? A Venesa yn eu dillad yn barod i berfformio



Parti cydadrodd Ysgol Gymraeg Trevelin

Ymweliad â Mi Casita

Wel helo bawb! Mae hi'n anodd credu bod dros ddau fis ers ein hymweliad ag Esquel a Threvelin. Er bod yr atgofion anhygoel yn dal mor fyw yn ein meddyliau.

Dwi'n gweithio fel dirprwy reolydd mewn cartref plant o'r enw Drws y Nant yng Nghaer-narfon, Gogledd Cymru. Mae pump o blant rhwng 13 a 17 oed yn byw yno llawn amser. Rydym yn gofalu am eu hanghenion addysgol, emosiynol ac ymarferol. Ers cryn amser bu'n uchelgais gen i ymweld a'r Wladfa yn ogystal â chael mewnwelediad i waith cym-deithasol dramor. Clywais (drwy Lois Eluned, cyn swyddog Menter Patagonia) bod ca-nolfan yn Esquel o'r enw Mi Casita oedd yn darparu gwasanaeth ar gyfer plant difrein-tiedig ac felly roeddwn yn ffodus iawn i gael gwireddu'r ddau ddymuniad.

Ar ôl sawl awr ar y we daeth yn amlwg i mi bod Mi Casita yn gwneud gwaith arbennig. Sylweddolais fod Mi Casita yn cynnig nid yn unig yr anghenion sylfaenol megis bwyd, ond hefyd cariad a gofal arbennig, a hynny gyda'r lleiafrif o gefnogaeth gan yr awdur-dodau. Penderfynodd Non a minnau i fynd ati i geisio hel ychydig o arian nol yng Nghymru drwy drefnu taith gerdded, ac amryw gasgliadau - capel, ffrindiau ac ati. Roed-dem mor falch i ddarganfod ein bod wedi llwyddo i hel cryn dipyn o arian a chyda help mawr gan Gladys Jones, aethpwyd ati i drefnu ymweliad a'r Ganolfan.

Un dydd Gwener ym mis Mai, aeth Gladys, Non, Iwan, Cristina, Clare a minnau i ymweld â Mi Casita a chael croeso arbennig iawn - digon i ddod a deigr yn i lygaid pob un ohonom. Roedd gwrando ar Sylvia, gweithwraig yn Mi Casita, ynghyd a gwylio perthynas y staff a'r plant yn hynod o arbennig, yn enwedig o gofio'r ffaith trist bod yr holl waith yn lleihau oherwydd prinder cyllid. Roedd yr holl brofiad yn atgyfnerthu i mi pa mor ffodus yw ein gwasanaethau ni i dderbyn y gefnogaeth yn ariannol ac o ran ce-fnogaeth y gymdeithas leol.

Gwn y bydd gan y bobl ifanc yn Drws y Nant ddiddordeb mawr i glywed hanes Mi Casita a Phatagonia. Gobeithir y bydd modd i ni barhau i gasglu arian ar ôl dychwelyd i Gymru.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch o galon i bawb am eu croeso cynnes yn ystod ein cy-fnod yn Esquel a Threvelin a'r holl brofiadau gwych a gawsom. Gobeithiwn eich gweld i gyd eto'n fuan!

Awen Owen



Llythyr

Fel

Annwyl Mrs Griffiths,

Y rheswm yr wyf yn ysgrifennu atoch ydi ein bod wedi clywed bod cadair barddof fy nhadcu, Charles Abel Jones, wedi cyrraedd Trevelin, Patagonia! Roedd y gadair yn perthyn i fy mam ar ôl marwolaeth fy nhadcu.

Fe wnaethom ni gwrdd â chi yn Eisteddfod Genedlaeth Cymru, rhai blynyddoedd yn ôl ac eto ym Mhatagonia, pan roedd Côr Cymraeg o Gymru yn rhan o Gymanfa Ganu yn Eisteddfod Trevelin 2007.

Llewelyn Davies ydi ewn fy ngŵr, a Marlis Davies ydi fy enw i. Fe wnaethoch chi roi eich cyfeiriad i ni.

Roedd fy ngŵr, Llewelyn yn canu yn y côr yn y Gymanfa ganu. Sioc mawr oedd clywed bod cadair barddol fy nhadcu yn Eisteddfod Trevelin 2001, a ninnau yno yn 2007! Mae'r byd yn mynd yn fach.

Hoffwn i, os byddwch chi mor garedig a dangos y llythr yma i bobl yr Eisteddfod.

Gobeithio eich bod yn cadw'n iawn

Gyda cofion gorau,

Marlis (Davies)

Helo, Guto yma ac yn dal i feddwl amdanoch! Mae yna ryw 5 mis a hanner wedi mynd heibio erbyn hyn ers i mi adael Trevelin y tro diwethaf ac erbyn hyn rydw i'n trio cadw fy hun yn brysur trwy weithio yng Ngholeg Llambled yn yr adran arlwyyo. Edrych ymlaen yn awr i fynd i Goleg Bangor i astudio Seicoleg ym mis Medi. Fi dal yn trio dysgu Sbaeneg yn araf bach, felly cawn weld sut fydd y Sbaeneg erbyn y tro nesaf y byddaf i'n dod draw atoch nesaf. A fi dal yn benderfynol o ddod draw atoch yn y blynyddoedd nesa gyda mam a dad.



Menter PATAGONIA

Mae sawl peth wedi digwydd gyda Menter Patagonia. Nid oedd digon o le i sôn am bopeth, ond dyma rai o'r pethau sy'n aros yn y cof.



Cafwyd noson gyri cyntaf yn Nhrevelin. Roedd dau fath o gyri ar y fwydlen sef korma gyda chyw iâr a rogan josh gyda chig eidion.

Yn y clwb plant cyn y noson, y bwriad oedd coginio chipatis ar gyfer eu bwyta gyda'r cyri. Cawsom lawer o hwyl yn creu llanast gyda'r bawd ac yn creu bob math o siapiau gyda'r toes. Ar ôl ychwanegu mwy o halen - roedd y plant yn hoffi'r bara o India. Ond y broblem oedd eu bod yn ei hoffi ychydig bach gormod, ac roeddynt wedi bwyta nhw i gyd, a doedd yno ddim ar ôl ar gyfer y noson. Doedd dim dewis ond prynu bara o'r panadería i fwyta gyda'r bwyd.

Roedd hi'n braf cael croesawu Ivan Ganga yn ôl i'n plith. Mae wedi dychwelyd yn ôl i Drevelin ar ôl treulio dwy flynedd ym Mharaguay, lle'r oedd yn gweithio gyda'r eglwys yno. Croeso'n ôl ac mae pawb yn edrych ymlaen at weld rhagor ohono.

Roedd pawb yn mwynhau cael profi'r cyri, a sgwrsio gyda phawb. Cafwyd raffl, a'r wobr oedd llwy garu brydferth oedd wedi cael ei roi a'i wneud gan Margarita Green (diolch yn fawr). Yr enillydd lwcus oedd Sol.

Ar ôl y bwyd cafwyd cwis. Tri tîm - Bethel, Gwin Coch a Ventus. Roedd dau dîm yn fuddugol gyda 17 pwynt yr un, felly roedd rhaid cael cwestiwn i benderfynu pwy oedd yn ennill y botel win, a Bethel oedd yn llwyddiannus. Ar ôl y canlyniad cafodd pawb hwyl yn lluchio bara ar y tîm buddugol. Mae llawenydd Bethel i'w weld yn glir yn y llun uchod.



Noson ddoniol iawn oedd 'Steddfod Ddwl yn Esquel. Roedd yno ddau dîm sef 'Cyntaf' a 'Victoria'. Dim ond hanner pwynt oedd rhwng y ddau dim ar y ddiwedd, ond yn eironig 'Cyntaf' oedd yn ail, a 'Victoria'n fuddigol. Cristin cafodd ei chadeirio yn y Gadair Blastig, a doniol oedd gwylio y marchod yn codi ar eu traed (doedden i heb ofyn iddynt) a chreu dawns y blodau yn y fan a'r lle. Roedd Romina yn serenu yn y gystadleuaeth meimio fel band, ac yn gwneud dynes flaen penigamp. Cafwyd panchos hanner amser, a blasus iawn oeddynt hefyd. Braf oedd gweld pawb yn dawnsio, chwerthin a chael hwyl.



Cafwyd cyfarfod cyntaf Clwb Gwawr Trevelin nos Wener. Roedd Margatita Green wedi bod yn brysur yn paratoi dan-teithion o China a Japan - chow mein, sushi a llawr mwy. Ar ôl cael arddangosiad o sut i ddefnyddio chopsticks aeth pawb ati i fwyta'r bwyd. Roedd rhai yn llwyddiannus a bu rhaid i rai ddefnyddio fforc, neu llwgu fyddai eu hanes. Roedd rhai erioed wedi blasu rhai o'r bwyd, ond fe wnaeth pawb ei fwynhau. Ond nid oedd neb yn hoff iawn o'r wasabi, er i Alwen geisio gwneud pawb ei brofi. Cawson wers Cheiniaidd, a dysgu gall "ma" olygu sawl peth: 媽 (mā) - mam, 麻 (má) - hemp, 馬 (ma) - ceffyl a 罵 (mà) - dweud y drefn.

Fe wnaethant ddysgu sut i gyfarch, cyflwyno eu hunain, a chyfri o un i ddeg. Derbyniodd pawb docyn raffl oedd wedi ei lapio mewn papur coch (mae anrhegion yn cael eu lapio mewn coch yn China). Deuddeg oedd un o'r rhifau buddugol (neu 十二). Ceisiodd Eli a Mary gyfuno rhifau'u dwy, un a dau, er mwyn ennill, ond Irma enillodd, a Nita a enillodd yr ail wobwr. 谢谢 Xièxiè i bawb.

Rhag ofn bod y plant yn methu allan, yn y clwb plant fe wnaethom greu baneri gyda chymeriadau Cheiniaidd o anifeiliaid arnynt. Daeth criw ohonom at ein gilydd, sy'n dysgu ac yn



siarad Cymraeg, i gael swper a sgwrsio yn yr ysgol yn Nhrevelin. Cafodd bawb gyfle i flasgu'r gwin poeth cyn y swper. Roedd yn ddiod perffith i gynhesu rhywfaint ar noson oer o Fehefin. Doniol oedd ei yfed allan o fygiau a chwpanau a soseri – twist bach ar y banad Gymreig. Cawsom fwyd Morcaidd – saws bricyll a chyw iâr gyda chws cws. Ar ôl bwyta'r bwyd roedd chwant mwy, ac wrth gwrs roedd rhaid cael rhywbeth melys, felly fe archebasom hufen iâ.

Buasai siop hufen iâ byth ar agor am 11 o'r gloch nos yng Nghymru, nac yn danfon o i'ch drws tŷ - un o'r pethau gwych am fod yn yr Ariannin! Hwyl oedd chwarae ambell gêm ar y diwedd, yn ceisio dyfalu enw pa berson enwog oedd ar ein pen ac ychydig o pictionary.

Er ei bod hi bron yn ddiwedd mis Mai, fe aethom allan i gerdded i Lyn Brychan. Roeddwn i wedi gwisgo dwy got, menig, sgarff, a chap, ond ar ôl cerdded ychydig roeddwn wedi lluchio bob dim yn ôl i'r bag. Roedd yr haul yn tywynnu, ac roedd ei lewyrch yn teimlo'n hyfryd o gynnes. Ar ôl cerdded yn hamddenol, a dringo dros giatiau, fe gyrhaeddom y llyn. Roedd yr olygfa'n odidog, gyda'r bryn yn cael ei adlewyrchu fel drych yn y llyn. Cawsom ysbaid fach a bwyta ychydig o gacen banana Mary, tra'r oedd y plant yn ceisio pysgota gyda rhwyd oeddynt wedi ei ganfod ar y lan. Diwrnod hyfryd. Rwy'n edrych ymlaen at fynd i gerdded eto ar ôl gwyliau'r gaeaf pan fydd y tywydd wedi cynhesu rhywfaint.



CLYTWAITH

Prynodd fy mam i flanced efo print clytwaith, un i fy chwaer ac un i fi, pan o'n ni'n blant. Ond dechreuodd fy niddordebau yn y grefft ar ôl i mi weld y ffilm o'r enw "How to make an american quilt" gan Wynona Ryder.

Yna, pan o'n i yn y Brifysgol ym Muenos Aires, yn y flwyddyn 1994, ces i wahoddiad i ymuno grŵp o'r Eglwys Acasuso oedd yn gwneud clytwaith. Y syniad oedd ein bod ni'n rhannu'r gwaith ac wedyn ar ddiwedd y flwyddyn cael y flanced yn wobwr mewn raffl; felly, gwnaeth pob un aelod ddarn, a'u huno i wneud un flanced. Dyna'r lle nes i ddysgu'r grefft



Cymerodd dipyn o amser i mi ddechrau gweithio efo'r clytwaith eto... ond peth bynnag, roedd llawer o syniadau gwahanol yn fy mhen.

Beth sy'n neis am glytwaith? Dw i byth yn gwybod sut mae gwaith yn mynd i edrych ar ôl i mi ei orffen, a does dim ffiniau i fy nychymyg. Teimlaf fod yno rhyw fath o ddealltwriaeth rhwng y defnyddiau, ac mae nhw'n gwybod sut i uno gyda'i gilydd.

Dros y blynyddoedd dw i di prynu offer arbennig fel olwyn dorri (i dorri 30 o ddarnau o ddefnydd ar y tro) er mwyn eu cadw mewn bocs i'w defnyddio pan dw i eisiau. Cam wrth gam dw i'n teimlo mwy prof-fesiynol. Uchod mae llun o flanced nes i ei wneud i ferch fy nghyfnither

Romina Lia Azzolini

Torth Gig i'r Teulu

Ryseit gan fam Iwan. Mae'n flasus!

1 pupur gwyrdd wedi ei dorri yn fân
225g o nionyn wedi ei dorri'n fân
4 tafell o facwn wedi ei dorri'n fân
450g o gig eidion wedi ei finsio
225g o gig selsig
110g o friwsion bara
3 llwy fwrdd o saws tomato
2 wŷ wedi eu curo
ychydig o bupur a halen

Popty gwres 180° C neu Nwy marc 4

- Paratowch dun torth 2 bwys gan ei daenu â phapur saim
- Cymysgwch yr holl gynhwysion yn drwyadl mewn dysgl fawr.
- Yna rhowch y gymysgedd yn y tun a'i grasu am tua lawr a hanner nes bydd y sudd yn rhedeg ohono yn glir wrth ei bwyso gyda llwy.
- Ei adael yn y tun nes ei fod wedi oeri, yna ei droi allan.

Gallwch yhwanegu moron neu fadarch neu unrhyw lysieuyn sy'n boblogaidd gyda'r teulu. Mae hefyd yn ffordd o ddefnyddio gweddillion y cinio dydd Sul.


Mae'n hynod o flasus mewn brechannau neu gyda salad gwyrdd a thatws newydd.

Cornel Plant

Chwilair Anifeiliaid

a	n	s	y	r	t	s	e	m	c	Dafad
t	y	p	e	a	c	m	rh	a	p	Estrys
c	ch	u	m	g	h	i	w	j	e	Ci
e	o	d	a	f	a	d	o	g	w	Buwch
t	m	i	u	d	i	b	a	f	e	Oen
h	w	y	a	d	e	n	t	e	ll	Llew
l	p	e	n	e	y	r	w	w	u	Hwyaden
a	c	h	e	ll	a	g	y	i	b	Aderyn
th	n	c	o	t	e	c	ch	n	e	Cyw
c	a	m	o	ch	w	u	b	i	b	Mochyn


Beth sy'n wahanol?



Dewch i ddarllen

Nofelydd a bardd oedd Thomas Llewelyn Jones, (11 Hydref 1915–9 Ionawr 2009), a ysgrifennai fel T. Llew Jones. Bu'n ysgrifennu am dros hanner canrif, ac mae'n un o awduron llyfrau mwyaf poblogaidd a chynhyrchiol Cymru.

Dyma ddarn o'i nofel Cri'r Dylluan. Nofel sydd wedi cael ei osod yng nghanol y G19, pan roedd y werin bobl yn gwrthryfela yn erbyn y tollbyrth. Roedd y dynion yn gwisgo dillad merched ac yn peintio'u gwynebau'n ddu i ymosod ar y tollbyrth, fel na fyddai neb yn eu hadnabod. 'Merched Rebecca' neu 'Ferched Be-ca' oedd yr enw arny'n nhw ar lafar.



“Roedd hi'n nos yn awr, ond roedd golau gwan i'w weld yn ffenest y tolldy bach yn ymyl y gât.

“Gât!” gwaeddodd Tomos.

Ni ddigwyddod dim, Safodd yr hen gaseg flinedig yn hollon lonydd yn y glaw.

“Gât!” gwaeddodd Tomos wedyn, a'r tro hwn roedd ei lais fel taran. Ago-rodd drws y tolldy wedyn.

“Ol reit! Ol reit! Rwy'n dod cynted â galla i!” medida llais Mitchell, ceidwad tollborth y Pentre. Fe geisiodd edrych drwy'r tywyllwch i weld pwy oedd am fynd trwy'r gât. Yn y cysgodion gallai weld cart a cheffyl.

“Chwe cheiniog!” medida'n ddiamynedd.

Gwelodd Sara ei gŵr yn codi ar ei draed yn y cart a theimlodd ofn yn ei chalon.

“Ond rydyn ni wedi talu bore heddi!” gwaeddod Sara, “does dim hawl gyda chi ofyn i ni dalu ddwywaith mewn un diwrnod...!”

Daeth Mitchel yn nes at y cart. Pe bai wedi cymryd pwill ac wedi edrych yn fanwl, gallai fod wedi darganfod pwy oeddynt, ond am ei fod yn teimlo'n flin, fe dywedodd rywbeth a gafodd effaith ofnadwy ar yr holl ardal am fisoedd wedi hynny. (Efallai hefyd iddo gredu mai ceisio ei dwyllo oedd y ddau yn y cart, eu bod wedi mynd trwy'r glwyd o'r blaen y diwrnod hwnnw, Roedd eraill wedi ceisio'i dwyllo felly droeon.)

Yr eiliad nesaf roedd Tomos wedi neidio o'r cart. Clywodd Sara ei gorff trwm yn disgyn ar y ffordd galed. Clywodd geidwad y tollborth yn gweiddi,

“Paid ti cwrdd â fi neu...”

Yna roedd dwrn mawr Tomos wedi ei daro yn ei wyneb. Roedd hi'n ergyd ofnadwy. Ynddi roedd holl ddieter Tomos at y tollbyrch ac at y tloidi oedd wedi mynd yn gymaint o faith arno ef a'i deulu.

Ar unwaith roedd Mitchell yn mynd yn gyflym lwyr ei gefn ar draws y ffordd. Stopiodd pan drawodd bost trwchus y Gât, a llithrodd i'r llawr. Aeth Tomos ar draws y ffordd ar ei ôl.

“Tomos! Na!” Gwaeddodd Sara mewn dychryn. Ond roedd y dyn mawr wedi cyrraedd hyd at Mitchell. Cydiodd ynddo a'i godi oddi ar y llawr a'i daro unwaith eto - o dan ei ên y tro hwn. Gorweddodd ceidwad y tollborth yn dawel ac yn hollol anymwybodol ar y llawr. Roedd gwaed dros ei wyneb i gyd. Plygodd Tomos drosto a rhoi ei law yn ei boced. Tynnodd allan yr allwedd i agor y glwyd.


“tomos...ydy...ydy...e'n fyw?”

Enillydd

Enillydd cystadleuaeth rhifyn Mis Ebrill o Lais yr Andes yw Romina. Atebodd hi'r holl gwestiynau yn gywir, a hi oedd y cystadleuydd lwcus a gafodd ei ddewis o'r het. Enillodd y siwmpwr hyfryd gyda llun o'r ddraig arno (a gafodd ei roi gan Pat Naish, un o'r criw mawr a ddaeth o yma o Gymru ym mis Ebrill) a photel o win. Roedd Romina yn hapus iawn, ac yn dweud bod hi byth yn ennill. Llongyfarchiadau iddi, ac os ydych eisiau siawns o ennill atebwch y cwestiynau ar y cefn.



Croesair



I LAW

1. Sanctaidd
2. Bwlch
3. Call
4. Siswrn
5. Honno
6. Oedi
7. Eto
8. breuddwyd

AR DRAWS

1. Amdano
2. Tywysog
3. Ymennydd
4. Nod
5. Iau
6. Baw
7. Wythfed

Cofiwch bod, ch, dd, ff, ll, rh, th yn un llythyren.

Sudoku

	1		6		7			4
	4	2						
8	7		3			6		
	8			7			2	
			8	9	3			
	3			6			1	
		8			6		4	5
						1	7	
4			9		8		6	

Rhaid cael bob rhif rhwng 1 a 9 ym mhob llinell, ac ym mhob boc.

8	3	5	4	1	6	9	2	7
2	9	6	8	5	7	4	3	1
4	1	7	2	9	3	6	5	8
5	6	9	1	3	4	7	8	2
1	2	3	6	7	8	5	4	9
7	4	8	5	2	9	1	6	3
6	5	2	7	8	1	3	9	4
9	8	1	3	4	5	2	7	6
3	7	4	9	6	2	8	1	5

Cystadleuaeth

Atebwch y cwestiynau hyn, a dychwelwch yr atebion i Iwan Madog ar ddarn o bapur erbyn 12/08/2011, ac mae siawns i un ohonoch ennill gwobr arbennig fel y gwnaeth Romina!

1. Sawl darn o ddefnydd gellir torri gyda olwyn dorri Romina?
2. Pwy enillodd y cwis yn y Noson Gyri?
3. Sawl wŷ sydd ei angen yn y dorth gig?
4. Ble mae Non yn gweithio yng Nghymru?

Mae'r holl atebion yn yn rhifyn yma